TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 1 Opsiwn 1.3

Addysgu o 2026

Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys


Cyflwyniad ..... 1

Nodau'r Canllawiau Addysgu ..... 1

Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ..... 1

Strwythur y Cymhwyster ..... 2

Asesu ..... 3

Crynodeb o'r Asesu – Uned 1 ..... 3

Amcanion asesu a phwysoli Uned 1 ..... 3

Trosolwg o Uned 1 Modern Cynnar: Opsiwn 1.3 Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485–tua 1547 ..... 4

Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 1.3 Modern Cynnar: Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485–tua 1547 ..... 5

Profiadau Dysgu ..... 22

Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ..... 23

Rhestr Termau ar gyfer Opsiwn 1.3 Modern Cynnar: Cymru a'r Tuduriaid cynnar, tua 1485-tua 1547 ..... 30


© WJEC CBAC Ltd 2025.

# CRYNODEB O'R ADDASIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd i, dyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028 | 1 |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

### Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr.Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

### Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â’r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Strwythur y Cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair uned. Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn addysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoli |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# Asesu

## Crynodeb o'r Asesu – Uned 1

| |
|---|
| **Uned 1: Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru**<br>***Arholiad ysgrifenedig:* 1 awr**<br>**30% o'r cymhwyster**<br>**60 marc** |
| Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol er mwyn cynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi cipolwg iddynt ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn hanes.<br>**Yr Oesoedd Canol**<br>**1.1** Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132 – tua 1197<br>**1.2** Owain Glyndŵr tua 1354 – tua 1416<br>**Modern Cynnar**<br>**1.3** Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485–tua 1547<br>**1.4** Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, tua 1603–tua 1660<br>**Modern**<br>**1.5** Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1892<br>**1.6** Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959<br><br>Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar wybodaeth hanesyddol am y testun, cysyniadau hanesyddol yr ail drefn a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol. |

## Amcanion asesu a phwysoli Uned 1

| | | |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion y cyfnodau a astudiwyd | 10% |
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd | 10% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan syntheseiddio'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol | 10% |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Trosolwg o Uned 1 Modern Cynnar: Opsiwn 1.3 Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485–tua 1547

**Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru**
(30% o'r cymhwyster)

Pwrpas Uned 1 yw rhoi cipolwg ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn amser. Nod yr opsiwn hwn yw meithrin dealltwriaeth dysgwyr am effaith rheolaeth y brenhinoedd Tuduraidd ar Gymru yn y cyfnod rhwng 1485 ac 1547.

| **Cyfnod amser** | **Opsiwn** | |
|---|---|---|
| Modern Cynnar | 1.3 | Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485–tua 1547 |
| | 1.3.1 | Esgyniad Harri VII |
| | 1.3.2 | Llywodraethiant Cymru o dan Harri VII, 1485-1509 |
| | 1.3.3 | Ymdrechion cynnar Harri VIII i reoli Cymru, 1509-1536 |
| | 1.3.4 | Effaith y Diwygiad cynnar ar Gymru |
| | 1.3.5 | Deddfau Uno 1536 a 1543 |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 1.3 Modern Cynnar: Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485–tua 1547

Darperir y cynllun dysgu hwn fel enghraifft ddarluniadol. Ei nod yw rhoi strwythur ac ysbrydoliaeth ond gellir ei addasu er mwyn diwallu anghenion unigryw, dewisiadau a dynameg dosbarthiadau unigol. Caiff athrawon eu hannog i addasu elfennau fel sy'n ofynnol i gyd-fynd â galluoedd a nodau dysgu eu myfyrwyr.

**Ar gyfer pob adran o gynnwys yn yr uned hon, mae CBAC hefyd yn darparu adnoddau dysgu cyfunol a threfnwyr gwybodaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yma: https://adnoddau.cbac.co.uk/**

| **1.3 Cefndir: Cymru yng nghanol y bymthegfed ganrif**<br>(Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. **Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol**). | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau: | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • ddylanwad gwleidyddol ardrefniant Edward, y Mers ac arglwyddi'r Mers, a Rhyfeloedd y Rhosynnod ar Gymru. | Canlyniadau Concwest Edward I o Gymru gan ddeall sut cafodd Cymru ei rhannu rhwng Edward ac Arglwyddi'r Mers.<br><br>Rhan y Cymry yn Rhyfeloedd y Rhosynnod ac effaith hyn ar Gymru. | **Gweithgaredd:**<br>Labelwch y map (sydd i'w weld yn y golofn Adnoddau) i esbonio'r newidiadau i Gymru yn dilyn ardrefniant Edward.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall dylanwad ardrefniant Edward ar Gymru.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Lluniwch linell amser o ran Cymru yn Rhyfeloedd y Rhosynnod hyd at esgyniad Harri VII. | **Llyfr(au):**<br>*History of Wales, 1485-1660* gan Hugh Thomas Pennod 1<br><br>**Map(iau):**<br>Map o Gymru Heddiw<br><br>Mapiau o Gymru<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Wales under the Tudors - BBC History | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall rhan Cymru yn Rhyfeloedd y Rhosynnod. | | |
| • nodweddion pwysig bywyd yng Nghymru yn y bymthegfed ganrif, natur cymdeithas Cymru, statws yr iaith Gymraeg a phwysigrwydd crefydd a'r Eglwys. | Dealltwriaeth o fywyd yng Nghymru yn y bymthegfed ganrif gan gynnwys gwaith, poblogaeth, diwylliant, iaith, crefydd, gwrthryfela a thai. | **Gweithgaredd:**<br>Defnyddiwch ymchwil sylfaenol / eilaidd i esbonio nodweddion bywyd yng Nghymru yn y bymthegfed ganrif. Gall hyn gynnwys agweddau pwysig fel gwaith, poblogaeth, diwylliant, iaith, crefydd, gwrthryfela yn erbyn rheolaeth Lloegr a thai. Gellid cwblhau hyn ar y cyd gyda'r dysgwyr yn gyfrifol am agweddau gwahanol a'u rhannu ag eraill.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall nodweddion bywyd yng Nghymru yn y bymthegfed ganrif.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Defnyddiwch ffynonellau ar fywyd yn Lloegr i nodi'r nodweddion tebyg a gwahanol rhwng bywyd yng Nghymru a bywyd yn Lloegr.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr gymharu a chyferbynnu bywyd mewn cymdeithas yn Lloegr ac yng Nghymru. | **Llyfr(au):**<br>*A History of Wales, 1485-1660* gan Hugh Thomas Pennod 1<br><br>*Tudor Wales* gan Trevor Herbert<br><br>**Gwefan(nau):**<br>BBC - History - British History in depth: Wales: English Conquest of Wales c.1200 - 1415 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.3.1 Esgyniad Harri VII** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • tarddiad Llinach y Tuduriaid, gan gynnwys:<br>  • Harri, Iarll Richmond, ei linach a'i flynyddoedd cynnar ym Mhenfro<br>  • arwyddocâd Margaret Beaufort. | Dealltwriaeth o hawl Harri VII i'r orsedd drwy ei fam a'i dad.<br><br>Dealltwriaeth o blentyndod Harri VII – tyfu i fyny gyda'i fam a'i ewythr, Jasper Tudur, yn Sir Benfro a'r digwyddiadau a arweiniodd ato'n ffoi i Lydaw.<br><br>Y rhesymau pam yr oedd Margaret Beaufort yn arwyddocaol yn esgyniad Harri VII, i gynnwys ei phriodas ag Arglwydd Stanley. | **Gweithgaredd:**<br>Defnyddiwch goeden deulu Harri VII i nodi sut yr oedd yn credu bod ganddo hawl i'r orsedd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddisgrifio llinach a blynyddoedd cynnar Harri VII ac arwyddocâd Margaret Beaufort.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Rhowch sgorau Coch, Oren a Gwyrdd i'r rhesymau pam yr oedd Margaret Beaufot yn arwyddocaol. Rhowch resymau dros eich sgorau.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso arwyddocâd Margaret Beaufort | **Llyfr(au):**<br>*A History of Wales, 1485-1660* gan Hugh Thomas (Pennod 2)<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Wales under the Tudors - BBC History | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • brwydrau olaf Rhyfeloedd y Rhosynnod, gan gynnwys:<br>◦ Brwydr Bosworth, 1485 a Brwydr Stoke, 1487<br>◦ arwyddocâd unigolion allweddol, gan gynnwys Rhisiart III, Jasper Tudur a'r brodyr Stanley. | Deall Rhyfeloedd y Rhosynnod.<br><br>Disgrifiwch y digwyddiadau wnaeth arwain at Frwydr Bosworth.<br><br>Esboniwch sut enillodd Harri VII Frwydr Bosworth. Caiff hyn ei ddefnyddio i ystyried unigolion arwyddocaol gan gynnwys Rhisiart III, Jasper Tudur a'r brodyr Stanley.<br><br>Disgrifiwch Frwydr Maes Stoke a phwysigrwydd y frwydr hon yn atgyfnerthu pŵer Harri VII. | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddisgrifio Brwydr Bosworth a Brwydr Stoke ac esbonio pam yr oedd unigolion allweddol yn arwyddocaol.<br><br>**Gweithgareddau:**<br>Cwblhewch dasg darllen dan arweiniad ar frwydrau olaf Rhyfeloedd y Rhosynnod. Gellir defnyddio'r clipiau i ategu eu gwybodaeth am y brwydrau.<br><br>Lluniwch ffeil ffeithiau am arwyddocâd yr unigolion allweddol: Rhaid i hyn gynnwys Rhisiart III, Jasper Tudur a'r brodyr Stanley. Bydd gwybodaeth ymlaen llaw yn galluogi dysgwyr i wneud hyn.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Dadl dosbarth ar arwyddocâd yr unigolion allweddol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio barn ar ba unigolion allweddol oedd fwyaf arwyddocaol. | **Fideo(s):**<br>What Actually Happened At The Battle Of Bosworth?<br><br>The Battle of Stoke Field!<br><br>**Llyfr(au):**<br>*A History of Wales, 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 2. | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Harri yn cipio'r orsedd, gan gynnwys:<br>• gweithredoedd uniongyrchol Harri i sicrhau'r orsedd<br>• arwyddocâd Elisabeth o Efrog. | Esboniwch sut gweithredodd Harri yn gyflym i atgyfnerthu ei safle, gan gynnwys dyddio ei deyrnasiad cyn brwydr Bosworth, gwobrwyo noddwyr allweddol, arestio hawlwyr posibl a phriodi Elisabeth o Efrog er mwyn uno Llinach Frenhinol Efrog a Chaerhirfryn. | **Gweithgaredd**:<br>Rhoddir ffynonellau i ddysgwyr ar Harri yn cipio'r orsedd i asesu gweithredoedd Harri i sicrhau'r orsedd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio'r gweithredoedd a ddefnyddiwyd i sicrhau'r orsedd ac arwyddocâd Elisabeth o Efrog.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Rhowch sgorau Coch, Oren a Gwyrdd ar effeithiolrwydd agweddau gwahanol at atgyfnerthu pŵer Harri.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso effeithiolrwydd gweithredoedd gwahanol. | **Gwefan(nau):**<br>Henry VII - Spartacus Educational | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| 1.3.2 Llywodraethiant Cymru o dan Harri VII, 1485-1509 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • perthynas Harri VII ag arglwyddi'r Mers, gan gynnwys:<br>• cymryd rheolaeth dros y rhan fwyaf o arglwyddiaethau gogledd y Mers a chyhoeddi siarteri braint<br>• ailsefydlu Cyngor Cymru a'r Gororau yn 1493 yn Llwydlo. | Deall sut a pham gwnaeth Harri adfer Cyngor Cymru a'i staffio ag uchelwyr o Gymru o dan arweinyddiaeth Jasper Tudur.<br><br>Deall y breintiau arbennig a roddwyd i uchelwyr yn 'y mers'.<br><br>Deall pam gwnaeth Harri VII ailsefydlu Cyngor Cymru a'r Gororau i atgyfnerthu rheolaeth dros Gymru, yn enwedig yn y Mers a oedd yn enwog am anghyfraith a gwrthdaro.<br><br>Deall cyfrifoldebau'r cyngor a phwysigrwydd strategol Llwydlo. | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio sut sefydlodd Harri reolaeth dros arglwyddiaethau'r Mers.<br><br>**Gweithgaredd:**<br>Lluniwch linell amser yn dangos camau Harri VII i gael rheolaeth dros arglwyddiaethau'r Mers.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Defnyddiwch fapiau o'r wers flaenorol i edrych ar bwysigrwydd strategol Llwydlo. Dylid anodi mapiau newydd â manylion allweddol i ddangos parhad a newid drwy gydol teyrnasiad Harri.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddefnyddio mapiau i esbonio newid a pharhad drwy gydol teyrnasiad Harri. | **Llyfr(au):**<br>*A History of Wales, 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 3<br><br>**Map(iau):**<br>[Map o Gymru Heddiw] | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • perthynas Harri VII â'r bonedd Cymreig, gan gynnwys:<br>◦ safle'r bonedd Cymreig yn y llys brenhinol<br>◦ defnyddio'r bonedd Cymreig gan gynnwys Syr Rhys ap Thomas a William ap Gruffudd i reoli rhannau helaeth o Gymru. | Deall pwysigrwydd y llys brenhinol a sut yr oedd Harri VII yn ei ddefnyddio i wobrwyo bonedd teyrngar.<br><br>Arwyddocâd bonedd Cymreig yn y llys brenhinol gan gynnwys dylanwad gwleidyddol, teitlau, tir a chyfnewid diwylliannol.<br><br>Deall pwysigrwydd Rhys ap Thomas a William ap Gruffudd yn cadarnhau pŵer Harri yng Nghymru.<br><br>Arwyddocâd adnoddau milwrol a dylanwad Rhys ap Thomas a William ap Gruffudd yn sicrhau safle Harri a hwyluso perthynas gydlynus rhwng Cymru a Lloegr. | **Gweithgaredd:**<br>Ysgrifennwch draethawd yn esbonio pwysigrwydd y bonedd Cymreig yn y llys brenhinol ac yn rheoli Cymru.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio'r dylanwad sylweddol a gafodd bonedd Cymru ar y llys brenhinol a sut defnyddiwyd uchelwyr i reoli Cymru.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Dadl dosbarth ar effeithiolrwydd rheolaeth Syr Rhys ap Thomas a William ap Gruffudd dros Gymru.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso effeithiolrwydd rheolaeth Syr Rhys ap Thomas a William ap Gruffudd dros rannau o Gymru. | **Llyfr(au):**<br>*A History of Wales, 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 3.<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Digitised manuscripts - The British Library | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • arwyddocâd etifedd Lloegr yn Dywysog Cymru, gan gynnwys:<br>• arwisgiad y Tywysog Arthur yn 1489 yn 3 oed<br>• arwisgiad y Tywysog Harri yn 1504 yn dilyn marwolaeth ei frawd. | Deall y rhesymau pam yr oedd arwisgiad Tywysog Arthur a Thywysog Harri yn arwyddocaol, fel atgyfnerthu dilysrwydd hawl y Tuduriaid i'r orsedd, hawlio awdurdod brenhiniaeth Duduraidd yng Nghymru a gosod cynsail ar gyfer etifeddion y dyfodol.<br><br>Disgrifiwch ddigwyddiadau arwisgiad Arthur a Harri. | **Gweithgaredd:**<br>Tasg darllen a deall i ateb cwestiynau allweddol am yr arwisgiadau.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddisgrifio arwisgiad Tywysog Arthur a Thywysog Harri.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Defnyddiwch ffynonellau i nodi rhesymau pam yr oedd teitl Tywysog Cymru yn arwyddocaol ers Brenin Edward I.<br><br>**Canlyniad uwch**<br>Gall dysgwyr esbonio pam yr oedd rôl Tywysog Cymru yn arwyddocaol. | **Gwefan(nau):**<br>Prince of Wales: What does the title mean?.<br><br>**Llyfr(au):**<br>*A History of Wales, 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 3. | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.3.3 Ymdrechion cynnar Harri VIII i reoli Cymru, 1509-1531** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • ymdrechion Harri VIII i reoli Cymru hyd at 1531, gan gynnwys:<br>  • rôl John Veysey, Esgob Caerwysg fel Arglwydd Lywydd<br>  • Arglwyddi trafferthus y Mers, gan gynnwys yr Herbertiaid ac arglwyddiaeth Magwyr. | John Veysey fel Arglwydd Lywydd Cyngor Cymru a'r Gororau o 1525 ymlaen. Asesu effeithiolrwydd John Veysey yn rheoli'r rhanbarth. Ystyried ei rôl grefyddol, ei rôl wleidyddol a chyflwyniad polisi brenhinol.<br><br>Deall rôl Arglwyddi'r Mers a phŵer eu hymreolaeth yn eu rhanbarth.<br><br>Teulu Herbert yn gwrthod derbyn awdurdod brenhinol a brwydrau pŵer, anghydfodau â'r goron ac anghyfraith yn Arglwyddiaeth Magwyr. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch linell amser o Lywyddiaeth John Veysey a llywodraethiant Cymru. Dylai hyn hefyd gynnwys unrhyw densiwn ag Arglwyddi'r Mers.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddisgrifio gyrfa John Veysey a thensiynau ag Arglwyddi trafferthus.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Rhowch ffynonellau sylfaenol i ddysgwyr am rôl John Veysey fel Arglwydd Lywydd (llythyrau, archddyfarniad brenhinol, cyfrifon cyfoes o weithgareddau'r Cyngor ac ati). Dylid trefnu'r dystiolaeth yn effeithiol neu aneffeithiol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd y dysgwyr yn asesu effeithiolrwydd Veysey yn rheoli'r rhanbarth ac yn rheoli Arglwyddi'r Mers. | **Llyfr(au):**<br>*Harri VIII: King and Court* gan A. Weir (2011)<br><br>*John Veysey and His World: A Biography of Bishop Veysey (c.1465–1554)* by R.D Geoffrey (1997)<br><br>*A History of Wales, 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 3 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Y Dywysoges Mari a'i chysylltiadau â Chymru, gan gynnwys:<br>• Mari yn Dywysoges Cymru, 1525-1531<br>• llys y Dywysoges Mari yn Llwydlo o 1525 ymlaen. | Effaith anuniongyrchol a gafodd Mari ar Gymru ond roedd yn nodedig yng nghyd-destun ehangach gwleidyddiaeth a chymdeithas Duduraidd. Fel Tywysoges Cymru, roedd Mari yn cynrychioli awdurdod brenhinol a dilysrwydd gan atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng Cymru a Lloegr.<br><br>Roedd llys y Dywysoges Mari yn Llwydlo yn gwasanaethu fel canolfan ar gyfer ei magwraeth a'i haddysg. Pwysigrwydd bod ei llys yn Llwydlo, asio diwylliant Cymru a Lloegr, canolfan i gadarnhau cynghreiriaid ag uchelwyr o Gymru. | **Gweithgaredd:**<br>Tasg ddarllen ar y Dywysoges Mari a Chymru. Dylai'r dasg ddarllen hon ganolbwyntio ar Mari a'i chysylltiadau â Chymru.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddisgrifio cysylltiadau'r Dywysoges Mari â Chymru.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Defnyddiwch y darlleniad i nodi rhesymau pam cafodd Mari ei gwneud yn Dywysoges Cymru.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr esbonio pam cafodd Mari ei gwneud yn Dywysoges Cymru. | **Gwefan(nau):**<br>Mary I: Life Story (Princess of Wales 1525-1531) - Tudor Times | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • arwyddocâd protest Syr Rhys ap Gruffudd, gan gynnwys:<br>• cwynion am ymyrraeth Harri VIII â'i etifeddiaeth<br>• cyhuddiadau o frad a sut yr ymdriniwyd â'r cyhuddiadau hynny | Digwyddiadau protest Syr Rhys ap Gruffudd yn erbyn y goron yn 1529, y diffyg cefnogaeth a'r ataliad cyflym.<br><br>Y rhesymau dros y brotest gan gynnwys anghydfodau ynghylch etifeddiaeth o ran y ffordd yr oedd tiroedd Syr Rhys ap Gruffudd yn cael eu gweinyddu a'u trethu o dan gyfraith Lloegr a bod ei awdurdod wedi'i danseilio gan asiantiaid brenhinol.<br><br>Roedd cyhuddiadau o wrthryfela a chynllwynio honedig ag eraill i arwain gwrthryfel gan y Cymry, er gwaethaf y ffaith nad oedd llawer o dystiolaeth, yn ddigon i gyhuddo Syr Rhys ap Gruffydd o frad.<br><br>Deall arestiad a charchariad, treial, dienyddiad Syr Rhys ap Gruffydd a chymryd tiroedd. Mae hyn yn nodi trobwynt sy'n dangos dirywiad pŵer uchelwyr Cymru a goruchafiaeth gynyddol cyfraith a llywodraethiant Lloegr yng Nghymru. | **Gweithgaredd:**<br>Gwyliwch y clip i ateb cwestiynau ar achosion, digwyddiadau a chanlyniadau protest Syr Rhys ap Gruffudd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddisgrifio achosion, digwyddiadau a chanlyniadau protest Syr Rhys ap Gruffudd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodaeth – I ba raddau yr oedd y brotest yn drobwynt arwyddocaol ym mhŵer uchelwyr Cymru?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso arwyddocâd y brotest. | **Fideo(s):**<br>The story of Rhys ap Gruffydd | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.3.4 Effaith y Diwygiad cynnar ar Gymru** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • effaith ddiwylliannol a gwleidyddol newid crefyddol yng Nghymru, gan gynnwys:<br>  • y rhesymau dros Ddiwygiad Harri VIII<br>  • diwygio'r Eglwys o dan Harri VIII. | Ymysg y rhesymau dros ddiwygiad Harri VIII mae rhesymau personol (dyhead i gael etifedd gwrywaidd a'r ffaith bod y Pab yn erbyn ysgariad), rhesymau gwleidyddol (datgan awdurdod brenhinol, tensiwn gyda'r Pab), rhesymau economaidd (atafaelu cyfoeth yr eglwys, llai o daliadau i Rufain) a rhesymau crefyddol (syniadau diwygwyr yn llys Lloegr, beirniadaeth gynyddol o'r eglwys).<br><br>Diwygiadau'r eglwys dan Harri VIII, gan gynnwys y Ddeddf Goruchafiaeth (1534), y Ddeddf Brad (1534), Diddymu'r Mynachlogydd ac Ymostyngiad y Glerigaeth. | **Gweithgaredd:**<br>Categoreiddiwch wybodaeth o dan y penawdau cywir sef personol, gwleidyddol, economaidd a chrefyddol i ddangos eich bod yn deall y rhesymau dros Ddiwygiad Harri VIII.<br><br>Gall dysgwyr greu llinell amser o ddiwygiadau'r eglwys o dan Harri VIII.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio'r rhesymau dros Ddiwygiad Harri VIII a disgrifio'r diwygiadau o dan Harri VIII.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Dadl dosbarth ar y prif reswm dros Ddiwygiad Harri VIII.<br><br>**Canlyniad Uwch:**<br>Lluniwch farn ar y prif reswm dros Ddiwygiad Harri VIII. | **Fideo(s):**<br>The Dragon Has Two Tongues (1985) Episode 6<br><br>**Llyfr(au):**<br>*A History of Wales, 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 4<br><br>*Wales and the Reformation* gan Glanmor Williams (1997)<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Wales under the Tudors - BBC History | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • effaith gymdeithasol Diwygiad Harri VIII yng Nghymru, gan gynnwys:<br>• Thomas Cromwell a'r rhesymau dros ddiddymu'r mynachlogydd<br>• effaith diddymu mynachlogydd Tyndyrn, Castell-nedd, Margam ac Ystrad Fflur. | Y rhesymau dros ddiddymu'r mynachlogydd, gan gynnwys cymhellion economaidd ac ariannol, cynyddu pŵer brenhinol, gwanhau dylanwad y Pab, creu tirfeddianwyr ffyddlon, llygredd canfyddedig ac agenda ddiwygiol Cromwell.<br><br>Effaith diddymu'r mynachlogydd ar Gymru gan gynnwys diwedd Bywyd Mynachaidd yng Nghymru drwy gau 29 o fynachlogydd, gwanhau dylanwad yr Eglwys Gatholig yng Nghymru, tarfu economaidd, colli'r gefnogaeth gymdeithasol oedd ar gael yn y mynachlogydd, ailddosbarthu tir mynachaidd ac atgyfnerthu rheolaeth Lloegr. | **Gweithgaredd:**<br>Dosbarthwch osodiadau yn achosion ac effeithiau ar effaith gymdeithasol Diwygiad Harri VIII.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio pam cafodd y mynachlogydd eu diddymu a disgrifio'r effaith ar Gymru.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Defnyddiwch ffynonellau i gymharu a chyferbynnu'r effaith ar Gymru a Lloegr ac i werthuso graddau'r effaith ar Gymru drwy nodi newid a pharhad.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso maint effaith diddymu'r mynachlogydd ar Gymru a chymharu hyn â'r effaith ar Loegr. | ***Llyfr(au):***<br>*Hanes Cymru, 1485-1660* gan Hugh Thomas<br><br>*Wales and the Reformation* gan Glanmor Williams (1997)<br><br>**Gwefan(nau):**<br>[Valor Ecclesiasticus - The National Archives] | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • gwrthwynebiad i'r Diwygiad yng Nghymru, gan gynnwys:<br>• ceidwadaeth llawer o bobl Cymru<br>• arwyddocâd y Gymraeg a'r llyfr Cymraeg cyntaf – *Yn y Llyfr Hwn*, 1547. | Deall y rhesymau dros y gwrthwynebiad i'r Diwygiad yng Nghymru oherwydd ymlyniad Cymru â thraddodiadau Catholig fel gwlad Gatholig iawn.<br><br>Y rhwystr ieithyddol gan mai'r Gymraeg oedd y brif iaith a siaradwyd gan y mwyafrif o'r boblogaeth a oedd yn golygu na allai'r Cymry ddarllen y deunydd Protestannaidd a oedd yn Saesneg yn bennaf. Yn aml, nid oedd y glerigiaeth Brotestannaidd yn siarad Cymraeg.<br><br>Roedd y llyfr Cymraeg cyntaf - *Yn y Llyfr Hwn*, yn cynnwys Credo'r Apostolion, Gweddi'r Arglwydd, a thestunau Cristnogol amrywiol eraill ynghyd â'r wyddor a chyfarwyddiadau ar sut i ddarllen Cymraeg i bobl gyffredin na allent ddarllen. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod testunau crefyddol yn fwy hygyrch i'r Cymry ac i hyrwyddo Protestaniaeth. | **Gweithgaredd:**<br>Defnyddiwch ffynonellau gan gynnwys *Yn y Llyfr Hwn* i esbonio'r gwrthwynebiad i Ddiwygiad Harri VIII yng Nghymru.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd y dysgwyr yn esbonio pam yr oedd gwrthwynebiad i'r Diwygiad yng Nghymru ac yn dangos eu bod yn deall pwysigrwydd *Yn y Llyfr Hwn.*<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Defnyddiwch wybodaeth (profiadau a charfanau meddwl gwahanol) i nodi enghreifftiau o wrthwynebiad a chydymffurfio i lunio barn ar effeithiolrwydd y gwrthwynebiad i'r Diwygiad yng Nghymru.<br><br>**Canlyniad Uwch:**<br>Gwerthuso effeithiolrwydd y gwrthwynebiad i'r Diwygiad yng Nghymru. | **Llyfr(au):**<br>*Hanes Cymru, 1485-1660* gan Hugh Thomas<br><br>*Wales and the Reformation* gan Glanmor Williams (1997)<br><br>**Gwefan(nau):**<br>The Protestant Reformation - BBC Wales History | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.3.5 Deddfau Uno 1536 a 1543** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • cefndir cyflwyno'r Deddfau Uno yn 1536 ac 1543, gan gynnwys:<br>• Rowland Lee ac anghyfraith yng Nghymru<br>• ofn gwrthwynebiad ac ymosodiad o dramor yn gysylltiedig â Diwygiad Harri VIII. | Y rhesymau pam cyflwynodd Harri VIII y Deddfau Uno, fel delio â'r problemau a achoswyd gan raniad Cymru, effeithlonrwydd gweinyddu, anghyfraith ac anhrefn, cymhlethdodau systemau cyfreithiol ar wahân a phryderon diogelwch oherwydd Diwygiad Harri VIII.<br><br>Deall sut ceisiodd Rowland Lee sefydlu cyfraith a threfn drwy ddeddfwriaeth a oedd wedi'i chynllunio i leddfu problem anghyfraith ac<br>adsefydlu cestyll yn y Gororau i gadw troseddwyr a oedd yn aros am dreial. | **Gweithgaredd:**<br>Defnyddiwch y darlleniad i nodi rhesymau dros y Deddfau Uno. Ar gyfer pob rheswm, esboniwch pam bydd y Deddfau Uno yn helpu.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr nodi ac esbonio'r problemau o ran rheoli Cymru cyn 1534 a sut byddai'r Deddfau Uno yn datrys y problemau hyn.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Rhannwch osodiadau am Rowland Lee yn effeithiol neu aneffeithiol. Defnyddiwch wybodaeth o'r gweithgaredd hwn i ddadlau ynghylch effeithiolrwydd Rowland Lee yn adfer cyfraith a threfn.<br><br>**Canlyniad Uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso effeithiolrwydd Roland Lee yn adfer cyfraith a threfn yng Nghymru. | **Llyfr(au):**<br>*Wales and the Act of Union* gan Glanmor Williams<br><br>*A History of Wales, 1485-1660* gan Hugh Thomas, Pennod 4<br><br>*The Union of England and Wales* gan William Rees (Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1937)<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Wales under the Tudors - BBC History | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • manylion gweinyddol y Deddfau, gan gynnwys:<br>• rôl Thomas Cromwell wrth ddylanwadu ar yr hyn yr oedd y Deddfau yn eu newid<br>• unffurfiaeth yn y llywodraeth o ran siroedd a swyddfeydd, fel siryfion ac Ynadon Heddwch a'r Llysoedd Chwarter a'r Sesiwn Fawr. | Pwysigrwydd Thomas Cromwell yn integreiddio Cymru yn agosach â Lloegr. Fel un o gynghorwyr allweddol Harri VIII, roedd Cromwell yn rhan allweddol o'r diwygiadau cyfreithiol a gweinyddol a hwylusodd y broses o uno Cymru a Lloegr.<br><br>Diwygio system gyfreithiol Cymru drwy ddiddymu Cyfreithiau Hywel Dda ac ymgorffori Cymru o fewn system gyfreithiol Lloegr. Roedd profiad cyfreithiol Cromwell yn hanfodol yn llywio'r diwygiadau hyn. | **Gweithgaredd:**<br>Dadl dosbarth - A fydd Uno o fudd i Gymru? Ystyriwch bethau fel sefydlogrwydd cyfreithiol a gwleidyddol ac atal hunaniaeth Gymreig.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddisgrifio'r newidiadau a fydd yn digwydd oherwydd y Deddfau Uno a deall rôl Thomas Cromwell.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Tasg map – Lluniwch fap yn dangos y newidiadau yn rhaniadau gweinyddol Cymru ar ôl y Deddfau Uno. Defnyddiwch hyn gyda mapiau blaenorol i drafod tebygrwydd a gwahaniaeth, newid a pharhad.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso newid a pharhad y rheolaeth dros Gymru dros amser. | *"A History of Wales, 1485-1660"* gan Hugh Thomas<br><br>*"The Union of England and Wales"* gan William Rees (Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1937) | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • effaith y Deddfau, gan gynnwys:<br>• pwysigrwydd cymalau iaith y Deddfau<br>• i ba raddau y daeth Cymru yn rhan o Loegr, yn hytrach na'i huno â Lloegr. | Y cymalau iaith yn y ddwy Ddeddf Uno. Sut gwnaeth deddf 1536 sefydlu Saesneg fel yr iaith swyddogol at ddibenion cyfreithiol a gweinyddol a sicrhau bod yr holl gamau cyfreithiol yn digwydd yn Saesneg. Deddf 1542 yn atgyfnerthu cymalau 1536 ond yn cydnabod yr iaith Gymraeg mewn rhai cyd-destunau lleol.<br><br>Ystyried agweddau gwahanol ar fywyd yng Nghymru a Lloegr fel diwylliant, gwleidyddiaeth, iaith, economi, strwythurau cymdeithasol, hunaniaeth genedlaethol a gweinyddiaeth i asesu'r graddau y daeth Cymru yn rhan o Loegr yn hytrach na chael ei huno â hi. | **Gweithgaredd:**<br>Aseswch ffynonellau sy'n ystyried agweddau ar fywyd yng Nghymru cyn neu ar ôl y Deddfau Uno. Gall dysgwyr drafod faint o effaith gafodd y Deddfau Uno ar Gymru er mwyn annog cydweithrediad.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio cymalau iaith y Deddfau a gwerthuso i ba raddau y daeth Cymru yn rhan o Loegr, yn hytrach na chael ei huno â hi.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cyflwynwch ddadl ar b'un a ddaeth Cymru yn rhan o Loegr yn hytrach na chael ei huno â hi.<br><br>**Canlyniad Uwch:**<br>Gall dysgwyr benderfynu a ddaeth Cymru yn rhan o Loegr yn hytrach na chael ei huno â hi. | **Llyfr(au):**<br>*"A History of Wales, 1485-1660"* gan Hugh Thomas, Pennod 4.<br><br>*The Union of England and Wales* gan William Rees (Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1937) | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y testun ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Ymweliadau personol ag olion y mynachlogydd a ddiddymwyd fel Abaty Tyndyrn, Castell Llwydlo, Castell Penfro, Bosworth, Maes Stoke, Castell Rhaglan, Llys a Chastell Tre-tŵr a Phlas Mawr.<br><br>Gallai profiadau digidol gynnwys ymweliad rhithiol â Phalas Tuduraidd Harri VIII, ymweliad rhithiol â Chastell Rhaglan, ymweliad rhithiol ag Abaty Tyndyrn, ymweliad rhithiol ag Abaty Glyn y Groes, ymweliad rhithiol ag Abaty Ystrad Fflur, ymweliad rhithiol â Llys a Chastell Tre-tŵr, ymweliad rhithiol â Phlas Mawr (ar gael drwy Cadw). |
| meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Bydd astudio concwest Cymru a'r effaith ar ddiwylliant a hunaniaeth Cymru yn galluogi dysgwyr i brofi tosturi.<br><br>Bydd astudio brwydrau penodol Rhyfeloedd y Rhosynnod yn galluogi dysgwyr i brofi empathi.<br><br>Bydd astudio marwolaeth y Tywysog Arthur yn 15 oed yn galluogi dysgwyr i brofi empathi.<br><br>Bydd astudio Diwygiad Harri VIII yn galluogi dysgwyr i fyfyrio ar oddefiant o grefyddau gwahanol.<br><br>Bydd astudio Rowland Lee a'i agwedd ddidrugaredd at y Cymry yn galluogi dysgwyr i brofi empathi a thosturi. |
| gweithio ar y cyd | Mae cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu mewn gwaith ar y cyd wrth ymgymryd â gweithgareddau gwaith grŵp yn enwedig yn y gwersi cefndir, fel wrth ddysgu am nodweddion bywyd yn y 15fed ganrif.<br><br>Ceir rhagor o gyfleoedd yn:<br>• 1.3.2 - cyflwynwch ddadl ar effeithiolrwydd John Veysey fel Arglwydd Lywydd<br>• 1.3.4 - gwaith grŵp wrth edrych ar y prif resymau dros Ddiwygiad Harri VIII<br>• 1.3.5 - trafod effaith y Deddfau Uno ar Gymru. Dadl dosbarth - A fydd Uno o fudd i Gymru? |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | |
|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Mae Uned 1 yn rhoi chwe thestun hanesyddol gwahanol i ganolfannau sy'n ymwneud â hanes amrywiaeth o ardaloedd yng Nghymru, gan alluogi dysgwyr i archwilio cyd-destunau lleol neu genedlaethol.<br><br>Mae Opsiwn 1.3 Modern Cynnar: Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485 – tua 1547 yn galluogi canolfannau a dysgwyr i archwilio'r broses o uno'r Dywysogaeth ac Arglwyddiaethau'r Mers a'u cynnwys yn system gyfreithiol Lloegr. Gall canolfannau hefyd archwilio rhan Cymru yn Rhyfeloedd y Rhosynnod a'r effaith a gafodd hyn ar Gymru ac ar ddealltwriaeth o fywyd yn y bymthegfed ganrif yng Nghymru.<br><br>Enghreifftiau eraill:<br>• bydd 1.3.1 yn galluogi canolfannau i edrych ar gysylltiadau Harri VII â Chymru gan gynnwys ei blentyndod ym Mhenfro.<br>• bydd 1.3.3 yn galluogi dysgwyr i archwilio rheolaeth Harri VIII o Gymru ynghyd â'r gwrthwynebiad i awdurdod brenhinol gan gynnwys protest Syr Rhys ap Gruffudd.<br>• bydd 1.3.4 yn galluogi dysgwyr i edrych ar effaith y Diwygiad ar Gymru a'r gwrthwynebiad i hyn.<br>• bydd 1.3.5 yn galluogi dysgwyr i archwilio effaith y Deddfau Uno ar Gymru. |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yna archwilio'r perthnasoedd anodd wnaeth helpu i lywio'r llinach ac arwain at wrthdaro. Mae'r rhain yn cynnwys pwysigrwydd priodas i sicrhau'r llinach ac uno Llinachau Brenhinol Caerhirfryn ac Efrog, ac awydd Harri VIII i ysgaru Katherine o Aragon a phriodi Anne Boleyn. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau trawsgwricwlaidd - Llythrennedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Gwrando</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Darllen</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad a roddir ganddynt o ddigwyddiadau.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer pwrpas.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Siarad</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td><ul><li>Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad</li><li>Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.</li><li>Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau.</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Ysgrifennu</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Bydd cyfleoedd ar gael iddynt hefyd i adfyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td><ul><li>Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.</li><li>Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf.</li></ul></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn</td><td>Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Mae cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus</td><td>Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Ceir cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifyddol eu hunain o'r data a gasglwyd.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i destun hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Dinasyddiaeth | Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol. |
| | **Enghraifft** |
| | Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â thestun. |
| | |
| Rhyngweithio a Chydweithio | Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith. |
| | **Enghraifft** |
| | Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i destun a'i gyflwyno er mwyn cyflwyno maes astudio. |
| | |
| Cynhyrchu | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol. |
| | **Enghraifft** |
| | • Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudio. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| Sgiliau Cyfannol | |
|---|---|
| Creadigrwydd ac Arloesi | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesi mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau. |
| | |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o destunau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn at senarios bywyd go iawn. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.<br>• Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.<br>• Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a phwrpas.<br>• Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| Cynllunio a Threfnu | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. |
| | **Enghraifft** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna i gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| | |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae sawl cyfle i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgu am destunau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Rhestr Termau ar gyfer Opsiwn 1.3 Modern Cynnar: Cymru a'r Tuduriaid cynnar, tua 1485-tua 1547

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Gweinyddu | Y broses neu'r gweithgaredd o redeg busnes, sefydliad neu wlad. |
| Cymathiad | Amsugno ac integreiddio pobl, syniadau neu ddiwylliant i mewn i gymdeithas neu ddiwylliant ehangach. |
| Concwest | Lle neu bobl yn cael eu darostwng ac yn ildio rheolaeth i lu milwrol. |
| Diddymiad | Y weithred o ddod â chynulliad, partneriaeth neu gorff swyddogol i ben neu ei ddiddymu yn ffurfiol. |
| Llywodraethu | Rheoli gwlad. |
| Mynachlog | Adeilad neu adeiladau a feddiannir gan fynachod sy'n byw dan lwon crefyddol. |
| Tarddiad | Y lle neu'r man lle mae rhywbeth yn dechrau neu'n codi, neu'n deillio ohono. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.